

Cwrs Byr Iechyd a Gofal sy'n seiliedig ar Werth - Ysgoloriaethau ar gyfer y Ffioedd Llawn

CYMHWYSEDD, PROSES DYRANNU AC AMODAU A THELERAU PRIFYSGOL ABERTAWE

1. DIBEN Y DYFARNIADAU

Mae Llywodraeth Cymru am gefnogi dysgwyr proffesiynol yn y GIG, maes Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector yng Nghymru i ymgymryd ag addysg a datblygiad personol mewn meysydd polisi allweddol, ac mae wedi sefydlu rhaglen Academi at y diben hwn. Mae cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn galluogi pob Academi i gynnig nifer o ysgoloriaethau hael i ymgeiswyr cymwys.

Mae ysgoloriaethau ar gyfer y ffioedd llawn ar gael ym Mhrifysgol Abertawe ar raglen y cwrs byr mewn Iechyd a Gofal sy'n seiliedig ar Werth. Mae nifer cyfyngedig o leoedd a ariennir, a chaiff y rhain eu dyrannu yn unol â'r meini prawf isod.

Hefyd, mae cyllid ar gael i gefnogi lle ar y radd doethur a addysgir (DBA) a'r rhaglen MSc mewn Rheoli Iechyd a Gofal Uwch. Mae gwybodaeth am y rhain ar gael yma <https://www.swansea.ac.uk/som/ila/>.

Os hoffech drafod eich cais am le a ariennir, cysylltwch â Chyfarwyddwr yr Academi Iechyd a Gofal sy'n seiliedig ar Werth, yr Athro Hamish Laing. E-bost: Hamish.Laing@abertawe.ac.uk

2. PROSES YMGEISIO

- i. Mae ymgeiswyr yn dilyn y broses Cyflwyno cais safonol ar gyfer y cwrs byr mewn Iechyd a Gofal sy'n seiliedig ar Werth.
- ii. Gall ymgeiswyr gyflwyno cais am le a ariennir dim ond gyda'u cais am gwrs. Caiff ceisiadau am leoedd a ariennir ond eu hystyried yn dilyn penderfyniad y panel eu bod yn gymwys am le ar y cwrs.
- iii. Mae angen i ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen cais am ysgoloriaeth isod, gan gynnwys y datganiad o gefnogaeth gan eu cyflogwyr.
- iv. Dylai ymgeiswyr gyflwyno'r ffurflen cais am ysgoloriaeth hon wedi'i chwblhau i VBHCAcademy@abertawe.ac.uk.
- v. Sylwer y gellir dyfarnu ysgoloriaethau i ymgeiswyr sydd wedi cwblhau'r cais am gwrs ymlaen llaw. Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, cofrestrwch eich mynegiant o ddiddordeb yma: <https://www.swansea.ac.uk/som/vbhc-academy/vbhc-execed/>
- vi. Cyflwynir ceisiadau am gyllid i Banel Dyfarniadau'r Ysgoloriaeth, a rhoir gwybod i ymgeiswyr. Caiff y rhai sy'n aflwyddiannus yn eu ceisiadau am ddyfarniadau ysgoloriaethau gymryd lle fel dysgwyr sy'n hunan-ariannu pe tasent yn dymuno gwneud hynny.

- vii. Ni thelir cyllid yr ysgoloriaeth i'r ymgeiswyr, ond wrth gofrestru byddant yn derbyn hysbysiad bod eu ffioedd wedi'u talu.

3. PROSES DYFARNU'R YSGOLORIAETH

- i. Dyfernir ysgoloriaethau gan y Panel Gwobrwyo Lleoedd Cwrs Byr yn Seiliedig ar Werth, a benodir gan y Bwrdd Sicrwydd Cyflenwi.
- ii. Dyfernir ysgoloriaethau ar gyfer ffioedd llawn ar sail tystiolaeth o'r budd mwyaf i'r ymgeisydd, i'w gyflogwr ac i'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaethau neu'r gymuned y mae'n ei chefnogi, yn ogystal â chyfrannu at ddeilliannau Cymru Iachach¹. Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir yn y ffurflen gais gan yr ymgeisydd a'i gyflogwr. Os ni ddyfernir yr holl ysgoloriaethau, bydd lleoedd a ariennir na chawsant eu dyrannu yn symud ymlaen ar gyfer cyrsiau yn y dyfodol.
- iii. Ym mhob cylch cyllido, bydd y panel yn cytuno ar ddyraniad penodol yr ysgoloriaethau yn unol â swm y cyllid sydd ar gael a lleoedd na chawsant eu dyrannu ac sy'n symud ymlaen o garfannau blaenorol. Caiff ysgoloriaethau eu dyrannu i adlewyrchu bwriad i gefnogi dysgwyr o'r grwpiau canlynol:
GIG Cymru
Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol yng Nghymru
Sefydliadau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
Sefydliadau Trydydd Sector yng Nghymru
- iv. Caiff ceisiadau eu sgorio fel y nodir yn y ffurflen gais yn Atodiad 1 isod, rhoir safle iddynt yn eu sector, a dyrennir ysgoloriaethau yn unol â'r dosbarthiad uchod ac ansawdd y ceisiadau a dderbynir.
- v. Dylai ymgeiswyr sy'n anfodlon ar benderfyniad y Panel Dyfarnu Ysgoloriaethau gysylltu â'r Athro Hamish Laing yn y lle cyntaf.
- vi. Cyflwynir adroddiad i Fwrdd Cyflawni a Sicrwydd yr Academi.

4. PWY SY'N GYMWYS?

- i. Rhaid bod ymgeiswyr wedi cyflwyno cais am y Cwrs Byr.
- ii. Rhaid bod ymgeiswyr yn:
 - o Gweithio gyda Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol neu'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru ar hyn o bryd, ac
 - o wedi cael cadarnhad cymorth wedi'i lofnodi gan eu cyflogwr gan ddefnyddio Rhan 3 y ffurflen hon.
- iii. Mae'r ysgoloriaeth ILA hon yn cynnwys y ffioedd dysgu llawn ar gyfer Cwrs Byr Iechyd a Gofal sy'n seiliedig ar Werth.

5. AMODAU A THELERAU:

- i. Mae ysgoloriaeth llawn yn cyfateb i'r ffioedd llawn ar gyfer y cwrs .

¹ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/in-brief-a-healthier-wales-our-plan-for-health-and-social-care.pdf>

- ii. Dylai ymgeiswyr gyflwyno cais am eu hysgoloriaeth ffioedd ochr yn ochr â'u cais am le ar y cwrs. Dylai ymgeiswyr anfon y ddogfen cais am ysgoloriaeth hon i VBHCAcademy@abertawe.ac.uk.
- iii. Mae Ysgoloriaethau'r Cwrs Byr sy'n seiliedig ar Werth yn talu'r ffioedd dysgu llawn ond nid ydynt yn talu am deithio, llety na chynhaliaeth. Ni thelir unrhyw daliadau'n uniongyrchol i'r ymgeisydd.
- iv. Ni ellir gohirio ysgoloriaethau. Mae'n rhaid i ymgeiswyr dderbyn yr ysgoloriaeth ar gyfer y cwrs y maent yn ymgeisio amdano.
- v. Bydd unrhyw ysgoloriaeth sy'n cael ei chynnig i ymgeisydd ond sy'n cael ei gwrthod cyn cofrestru yn cael ei chynnig i ymgeisydd ar y rhestr wrth gefn. Hysbysir ymgeiswyr cyn gynted â phosib ond, dylai ymgeiswyr ar y rhestr wrth gefn chwilio am ffynonellau cyllid eraill oherwydd nad oes sicrwydd y bydd Bwrsariaeth ar gael.
- vi. Anogir deiliaid Ysgoloriaeth i gymryd rhan yng ngweithgareddau marchnata a recriwtio'r Brifysgol.
- vii. Dylai myfyrwyr roi 2 wythnos o rybudd os nad oes modd iddynt fynychu'r cwrs.

6. Y RHEOIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

- i. Os ydych yn cyflwyno cais am fwrsariaeth i astudio ym Mhrifysgol Abertawe, bydd yn ofynnol i Brifysgol Abertawe gasglu, storio, defnyddio a phrosesu gwybodaeth amdano chi, at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio ac am resymau y tybir eu bod yn angenrheidiol er mwyn cymryd camau cyn ymrwmo i gytundeb dan gontract gyda'r Brifysgol.

7. CYFLEOEDD CYFARTAL

- i. Sefydliad cyfleoedd cyfartal yw Prifysgol Abertawe. Felly byddwn yn rhoi proses ymgeisio ddienw ar waith, lle ni fydd y panel yn gweld manylion personol.
- ii. Byddwn yn monitro cyfleoedd cyfartal yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer cyfleoedd cyfartal.

ATODIAD 1 : FFURFLEN GAIS

Cyfleoedd Cyfartal

Sefydliad cyfleoedd cyfartal yw Prifysgol Abertawe. Felly byddwn yn rhoi proses ymgeisio ddiennw ar waith, lle nid ystyrir manylion personol wrth ddyfarnu lleoedd a ariennir. Felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys gwybodaeth adnabyddadwy bersonol yn y manau a nodir ar y ffurflen yn unig.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth am gyfleoedd cyfartal a gesglir drwy'r broses ymgeisio am y cwrs er mwyn monitro cyfleoedd cyfartal.

Rhan 1: Gwybodaeth Adnabyddadwy Bersonol.[Mae'r adran hon at ddibenion gweinyddol ac ni fydd ar gael i'r panel dyfarnu]

ENW:	
CYFEIRIAD E-BOST:	
SECTOR:	lechyd/Gofal Cymdeithasol/Trydydd Sector (Dileer fel y bo'n berthnasol)
DYDDIAD:	

E-bostiwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau i VBHCAcademy@abertawe.ac.uk

Rhan 2: Sut bydd y cwrs o fudd i chi, eich sefydliad a'r cleifion / defnyddwyr gwasanaeth yr ydych yn gweithio gyda nhw. (Osgowch ddefnyddio gwybodaeth adnabyddadwy bersonol os bydd yn bosibl)

Dywedwch wrthym y sector, y cyflogwr a'r lleoliad yr ydych yn gweithio ynddo, a sut mae eich swydd bresennol yn cyd-fynd â deilliannau'r cwrs (Uchafswm o 300 gair - 0-5 pwynt i'w dyfarnu)

Sut bydd eich dysgu'n cyfrannu at gyflawni deilliannau Cymru Iachach? (Uchafswm o 300 gair - 0-5 pwynt i'w dyfarnu)

Pa effaith y bydd y cwrs hwn yn ei chael ar eich sefydliad a'ch defnyddwyr gwasanaeth? (uchafswm o 300 o eiriau? - 0-5 pwynt i'w dyfarnu)

Rhan 3: Datganiad gan Gyflogwr

I'w gwblhau gan reolwr llinell yr ymgeisydd neu uwch-reolwr perthnasol

Trafodwch sut bydd eich sefydliad yn elwa ar gyfranogiad y dysgwr yn y cwrs a pha effaith yr ydych yn disgwyl iddo ei chael. (uchafswm o 500 o eiriau? - 0-5 pwynt i'w dyfarnu)

Cadarnhewch y cefnogir yr ymgeisydd, os bydd yn llwyddiannus, i gael amser digonol wedi'i ddiogelu er mwyn cwblhau'r rhaglen a'r prosiect ac ymgymryd â'r dysgu hunangyfeiriedig sy'n ofynnol.

Enw

Teitl y Swydd:

Dyddiad:

Sefydliad:

Llofnodwyd gan _____

